## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

## Cyflwyniad

Mae Grŵp Colegau NPTC (Y Coleg) yn croesawu'r cyfle i gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n cwmpasu'r cyfnod 2024 i 2028 yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Disodlodd y Ddeddf hon ystod eang o ddeddfwriaeth gwrth-wahaniaethu ym Mhrydain yr oedd wedi ymdrin ag edafedd cydraddoldeb unigol yn bennaf. At hynny, mae Deddf 2010 yn ehangu cwmpas y diogeliad i gynnwys nifer o grwpiau ychwanegol, neu nodweddion gwarchodedig fel y'u gelwir bellach, na chawsant eu diogelu o dan y ddeddfwriaeth flaenorol.

Rhestrir y nodweddion gwarchodedig a ddiogelir gan y gyfraith isod.

- Oedran
- Anabledd
- Ailaseinio rhyw
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd a chred
- Rhyw
- Tueddfryd rhywiol
- Priodas a Phartneriaeth*

* dim ond mewn perthynas â'r angen am ddileu gwahaniaethu

Nod deddf 2010 yw cryfhau'r gyfraith, cysoni anghysondebau a darparu eglurder ar gyfer y rhai y mae angen iddynt sicrhau cydymffurfiad â'r ddeddf. At hynny, mae'n darparu arweiniad a diogeliad ar gyfer unigolion a grwpiau ac ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n ceisio cyngor ar faterion cydraddoldeb.

Fel corff cyhoeddus rhestredig mae gan y Coleg gyfrifoldebau o dan y ddeddf hon i gydymffurfio â dyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus, sydd wedi'u hadwaen fel y ddyletswydd gyffredinol. Mae tair elfen i'r ddyletswydd gyffredinol ac mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i bob un ohonynt.

Y tair elfen neu 'nodau' fel y cyfeirir atynt fel arfer yw;

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
2. Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Gan gymhwyso'r dyletswyddau cyffredinol i waith y Coleg, byddwn yn anelu at sicrhau ein bod yn isafu anfantais a brofir gan bobl o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig, ceisio diwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill, ac yn annog pobl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill pan fydd eu cyfranogiad yn anghymesur o isel. Mae meithrin cysylltiadau da yn ei gwneud hi'n ofynnol i fynd i'r afael â gwahaniaethu a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r ddeddf yn datgan yn benodol y gallai bodloni'r ddyletswydd hon olygu bod rhai pobl yn cael eu trin yn fwy ffafriol na rhai eraill, cyhyd â bod hyn yn peidio â mynd yn groes i ddarpariaethau eraill o fewn y Ddeddf.

**Dyletswyddau Penodol**

Mae Cymru wedi symud yr agenda gydraddoldeb ymlaen ymhellach o lawer na chenhedloedd eraill y DU ac mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu set o ddyletswyddau penodol sydd wedi'u dylunio i restru'r camau y mae'n rhaid i gorff rhestredig eu cymryd i ddangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol.

Cyflwynwyd y dyletswyddau penodol hyn i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i gyflawni pob un o dri nod y ddyletswydd gyffredinol fel y'i hamlinellir uchod. Y dyletswyddau penodol, sydd wedi'u dylunio i sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu cynnwys wrth ddylunio polisïau ac wrth gyflwyno gwasanaethau, yw:

- Pennu Amcanion Cydraddoldeb a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl sydd â buddiant mewn sut mae penderfyniadau'r Coleg yn effeithio arnynt
- Cywain a chyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol
- Cyflawni Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chyhoeddi'r canlyniadau os oes effaith sylweddol ar grŵp o fewn nodwedd warchodedig benodol
- Cywain a chyhoeddi gwybodaeth monitro cyflogaeth yn flynyddol
- Hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddyletswydd Gyffredinol ymysg ei gyflogeion a defnyddio ei weithdrefnau asesu perfformiad i adnabod ac ymdrin ag anghenion hyfforddiant ei gyflogeion mewn perthynas â'r Dyletswyddau Cyffredinol
- Pennu amcan cydraddoldeb tâl rhwng y rhywiau pan nodir gwahaniaeth mewn tâl rhwng y rhywiau
- Ystyried cynnwys amodau sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Gyffredinol yn ei brosesau caffael.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb cysylltiedig yn ofyniad y dyletswyddau penodol ynddynt eu hunain ac yn un y mae'r Coleg wedi bod yn gweithio tuag ato ers tro. Prif ddiben Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw cofnodi mewn un ddogfen gyhoeddedig y camau y mae corff rhestredig yn eu cymryd i gyflawni'r dyletswyddau penodol. Mae'n rhaid i'r cynllun fod ar gael yn gyhoeddus ac mewn fformat hygyrch.

## Pwy ydym ni?

Daeth Grŵp Colegau NPTC (Y Coleg) i rym ar 1 Awst 2013 pan gyfunodd Coleg Castell-nedd Port Talbot â Choleg Powys. Mae'n un o'r darparwyr Addysg Bellach (AB) mwyaf yng Nghymru o ran nifer y dysgwyr, gydag oddeutu 10,000 o ddysgwyr y mae dros 4,000 ohonynt yn amser

llawn. Mae'r Coleg yn cyflogi tuag 880 o staff ac mae ganddo drosiant blynyddol o tua £70miliwn. Mae'n gwasanaethu bron 30 y cant o fàs tir y wlad. Mae'r Coleg yn cynnig portffolio mawr o gyrsiau academaidd a galwedigaethol amser llawn a rhan-amser ar draws ei 8 safle i fwy na 270,000 o drigolion o Dde i Ogledd Cymru.

Y pedwar prif Goleg yw Afan, Bannau Brycheiniog, Castell-nedd a'r Drenewydd ac mae'r safleoedd yn Llandarcy, Maesteg, Pontardawe ac Abertawe'n darparu addysg a hyfforddiant ym mron pob maes galwedigaethol, gan gynnwys yr Academi 6ed Dosbarth a leolir yng Ngholeg Castell-nedd a'r Academi Chwaraeon rhagorol a leolir yn Llandarcy.

Mae'r Coleg yn darparu hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer diwydiant a busnesau'r rhanbarth hefyd ac yn chwarae rôl arweiniol wrth ddarparu dysgu yn y gymuned. Mae'r Coleg yn gweithredu masnachfraint gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i gyflwyno Dysgu Oedolion a Chymunedol. Ar ran Cyngor Sir Powys, mae'r Coleg yn cyflwyno mewn llawer o ganolfannau allgymorth. Mae'r Coleg hefyd yn Bartner Arweiniol ar gyfer pedwar ar ddeg o ddarparwyr hyfforddiant sydd wedi'u dwyn ynghyd at ddibenion darparu addysg a hyfforddiant o dan Gontract Prentisiaeth Dysgu Seiliedig ar Waith Llywodraeth Cymru. Gelwir y Bartneriaeth Dysgu Seiliedig ar Waith hon gyda'i gilydd yn Academi Sgiliau Cymru (ASC).

Mae'r Coleg yn ymfalchïo mewn rhaglen addysg uwch ragorol o ansawdd uchel, a gyflwynir mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Pearsons. Mae'n cyflwyno dros 40 o raglenni addysg uwch gan gynnwys Graddau BSc (Anrh) a BA (Anrh), Graddau Sylfaen, HND, HNC, Diplomâu mewn Addysg Uwch, Tystysgrifau Addysg Uwch a'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion/Proffesiynol. Mae'r Coleg yn cynllunio ar hyn o bryd i ehangu'r ddarpariaeth hon ymhellach.

Gwasanaethir y Coleg gan ddau awdurdod lleol, Castell-nedd Port Talbot a Phowys. Mae gan Gastell-nedd Port Talbot boblogaeth o 142,300 y mae 22,200 (25.6%) ohoni'n anweithgar yn economaidd, 2.3% yn uwch na chyfartaledd Cymru o 25.2%. O'r rheiny sy'n anweithgar yn economaidd, mae 5,300 (23.8%) eisiau gweithio. Mae oddeutu 3,300 o oedolion (4.9%) yn ddi-waith ac mae 24.1% o aelwydydd heb waith. Mae Powys, sydd hefyd wedi'i gwasanaethu gan y Coleg, yn cwmpasu chwarter o fàs tir Cymru gyda phoblogaeth o 132,500; Mae 2.4% yn ddi-waith ac mae oddeutu 20% yn anweithgar yn economaidd, o'r rhain mae 23% yn chwilio'n weithredol am swydd. Daw 31% o ddysgwyr o ardaloedd difreintiedig ar draws Castell-nedd Port Talbot a Phowys. O boblogaeth y dysgwyr, mae 9% yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ac mae tua 4.4% yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

## Hybu ac Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ystyrir bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o'n gwaith, a datganiad cenhadaeth y Coleg yw:

"Ysbrydoli dysgu, cyfoethogi bywydau, cyflwyno llwyddiant"

Mae hyn wedi'i ategu gan y Weledigaeth y bydd y Coleg yn:

- Bartner allweddol mewn rhwydweithiau strategol;
- Coleg sy'n cyflwyno dysgu ac addysgu rhagorol;
- Coleg mentrus ac entrepreneuraidd;
- Coleg sy'n paratoi dysgwyr yn llwyddiannus ar gyfer symud ymlaen mewn ffordd gadarnhaol;

- Arweinydd cydnabyddedig wrth ddefnyddio technoleg;
- Cyflogwr o ddewis;
- Dewis y cyflogwr ar gyfer dysgu ac ymgysylltu;
- Coleg sy'n helpu taclo tlodi trwy wella ffyniant economaidd;
- Coleg sy'n hybu dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Mae datganiadau gwerthoedd ein Coleg yn ymrwymo ni i gael ein 'rhwymo gan degwch ac amrywiaeth fel egwyddorion arweiniol'.

Galluogi llwyddiant yr holl ddysgwyr trwy ddarparu cyfleoedd addysgu a dysgu uchel eu hansawdd a hyblyg trwy amrywiaeth eang o ddisgyblaethau galwedigaethol ac academaidd yw nod canolog ein gwaith. At hynny, rydym yn anelu at fod yn gyflogwr cyfrifol i'n staff, darparwr gwasanaeth llwyddiannus yn ein mentrau masnachol ac yn bartner brwd yn ein gweithgareddau cymunedol.

Mae ein datganiadau gwerthoedd yn disgrifio ein hymrwymiadau o ran ein dull o sicrhau ein bod yn cyflawni'r safonau uchaf. Mae'r Coleg yn ymrwymedig i;

- Ganolbwyntio ar ddysgwyr a dysgu yn ein holl weithredoedd;
- Bod yn ofalgar ac yn gynhwysol yn ein hagweddau;
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n gyfrifol ac yn llawn parch;
- Cael ein rhwymo gan egwyddorion trosgynnol cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Ymddwyn yn broffesiynol ac yn gorfforaethol;
- Bod yn fentrus ac yn arloesol o ran ein hagwedd;
- Ymateb mewn ffordd sy'n oddefgar ac yn gefnogol.

Mae ein slogan "Mwy nag Addysg yn Unig" yn cyfleu'r syniad y bydd dysgwyr yn derbyn profiadau addysg a hyfforddiant rhagorol, cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol a mentrau cynnwys dysgwyr gan gynnwys y rhaglen GATE i ddysgwyr mwy dawnus a thalentog.

Mae staff yn ymwybodol o rôl cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy'r broses recriwtio a dethol, yn ystod eu cyfnod cynefino trwy fodiwl hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad ar-lein a hyfforddiant sy'n benodol i'r rôl.

Mae myfyrwyr yn ymdrin â chydraddoldeb ac amrywiaeth trwy gydol y broses gynefino ac yn ystod y rhaglen diwtorialau i sicrhau dealltwriaeth. Adolygir cynnwys a chyflwyniad tiwtorialau bob blwyddyn ac mae'r Coleg yn cywain adborth gan fyfyrwyr ar berthnasedd ac effeithiolrwydd y tiwtorialau.

Rydym yn ceisio uchafu pob cyfle i brif-ffrydio amrywiaeth o fewn digwyddiadau cyfredol y coleg ac yn rhoi cynnig ar syniadau blaengar pryd bynnag y bo'n bosib hefyd.

Rydym yn credu bod cyfle cyfartal wrth wraidd popeth a wnawn a'i fod yn rhan annatod o gyflawni ein cenhadaeth a hybu llwyddiant ein myfyrwyr i gyd. Mae Grŵp Colegau NPTC yn sefydliad cynhwysol ac yn credu ei fod yn hanfodol i holl aelodau'r gymuned deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac y gallant gyflawni eu potensial. Elfen bwysig y weledigaeth hon yw bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o fywyd a gwaith y Coleg yn hytrach na materion ychwanegol neu ar wahân.

## Sut yr aethom ati i ddatblygu'r Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Er mwyn sicrhau bod ein cynllun yn gynhwysfawr, yn gadarn ac yn berthnasol rydym wedi cael ein harwain ar bob adeg gan flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, Arweiniad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a deddfwriaeth DU berthnasol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Coleg wedi gweithio i sicrhau bod y cynllun hwn yn berthnasol ac yn gynhwysfawr trwy gysylltu fe â'r nodau a fanylir yng Nghynllun Strategol y Coleg 2023-2027.


Mae dadansoddiadau ystadegol o Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol y Coleg wedi amlygu materion a ymgorfforir o fewn nifer o amcanion cydraddoldeb y cynllun hwn. Rydym wedi cydnabod hefyd bod agweddau ar y data a gasglwyd yn dangos cyfradd ddatgelu isel ar gyfer nodweddion gwarchodedig penodol. I gywiro hyn a sicrhau ein bod yn symud tuag at ddealltwriaeth well o amrywiaeth ein budd-ddeiliaid rydym wedi cynnwys amcan sy'n ymwneud yn benodol â gwella ansawdd a datgelu data.

Mae’r Coleg wedi defnyddio’r ymchwil a wnaed gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn y cyhoeddiad ‘A yw Cymru’n Decach?’ 2023. Mae'r dystiolaeth sydd ynddi'n bwynt llywio arwyddocaol ar gyfer ein pedwerydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r cyhoeddiad 'A yw Cymru'n Decach' yn darparu adolygiad cynhwysfawr o sut mae Cymru'n berfformio ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'n cynnig her i'r holl bartïon a chyrff cyhoeddus â diddordeb i ymdrin ag anghydraddoldeb y mae ei wreiddiau'n ddwfn a hybu cydraddoldeb i bawb sy'n byw yng Nghymru. Mae'r adolygiad yn cynnwys pob rhan o fywyd yn ei gwmpas gan gynnwys:


- Addysg
- Gwaith
- Safonau byw
- Iechyd
- Cyfiawnder a Diogelwch
- Cyfranogiad mewn Cymdeithas

Ystyriwyd y meysydd a nodwyd gan yr adolygiad ochr yn ochr â'r nodweddion gwarchodedig i alluogi ni i wneud penderfyniad wrth greu ein hamcanion cydraddoldeb.

Wrth bennu ein hamcanion cydraddoldeb mae'r Coleg wedi rhoi ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd, sy'n parhau i fod yn symbylydd allweddol ar gyfer polisi a deddfwriaeth yng Nghymru. Mae’r Coleg wedi ymrwymo i fwyafu ei gyfraniad at saith nod lles cenedlaethol sydd wedi'u dangos yma. Fel darparwr addysg a chyflogwr, mae angen i ni ystyried y nodau wrth wneud penderfyniadau a'r effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.




Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i wasanaethau cyhoeddus unigol gymhwyso pum dull o weithio:




Rydym yn credu bod ein deg amcan terfynol, sydd wedi cael eu hadolygu a'u diwygio yn sgil ymgynghori, yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gadarn.

Mae ymgysylltu â'n cymunedau lleol, â myfyrwyr drwy'r Gynhadledd Cynrychiolwyr Myfyrwyr flynyddol ac â staff trwy grwpiau ffocws a digwyddiadau eraill wedi darparu tystiolaeth werthfawr ar gyfer pennu ein hamcanion cydraddoldeb. Helpodd y gweithgareddau hyn i ni ddeall anghenion ein myfyrwyr a'n gweithlu, ac i lunio'r Amcanion Cydraddoldeb.

Ym mis Ionawr 2020, ymgynghorodd y Coleg â 210 o gynrychiolwyr myfyrwyr ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Cymerodd myfyrwyr o'r holl nodweddion gwarchodedig ran yn yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd grwpiau ffocws ar bob safle, a gwahoddwyd myfyrwyr i drafod y cwestiynau a ganlyn:

- Ydych chi'n credu bod y Coleg yn deg ac yn gyfartal?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n credu bod y Coleg yn deg ac yn gyfartal? Beth ydym ni'n ei wneud yn dda?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n credu nad yw'r Coleg yn deg ac yn gyfartal? Beth allem ei wneud yn well?
- Sut allwn ni annog mathau gwahanol o fyfyrwyr i ddod ymlaen gyda'i gilydd?

Yn gryno, nododd yr ymgynghoriad y canlynol:

- Ystyriodd y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr fod y Coleg yn deg ac yn gyfartal. Adroddodd myfyrwyr nad oeddent wedi profi triniaeth annheg neu wahaniaethu ar sail eu nodweddion gwarchodedig, a'r teimlad helaethaf oedd bod gan yr holl fyfyrwyr fynediad cyfartal i gyfleoedd a chefnogaeth.
- Ymysg yr arfer da a nodwyd oedd: Cefnogaeth LHDT, cefnogaeth i fyfyrwyr anabl, peidio â goddef bwlio ac aflonyddu o unrhyw fath, mecanweithiau llais y myfyrwyr sy'n caniatáu i fyfyrwyr o nodweddion gwarchodedig amrywiol ddweud eu dweud, tiwtoriaid cyfeillgar a chefnogol, a thriniaeth deg ar sail rhywedd.
- O'r holl nodweddion gwarchodedig, teimlodd y mynycheion y dylai'r Coleg ganolbwyntio'n benodol ar weithgareddau i gefnogi myfyrwyr LHDT+ (tueddfryd rhywiol ac ailaseinio rhyw), a myfyrwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl (anabledd).

Yn benodol, argymhellodd myfyrwyr y canlynol:

- Ffocws parhaus ar gefnogi lles meddyliol yr holl fyfyrwyr, sicrhau yr hysbysebir hyn yn eang ac y rhoddir digon o adnoddau iddo

- Mentrau ymwybyddiaeth LHDT+, gan gynnwys nodi'r Mis Hanes LHDT, ymgyrch bathodyn pin neu lanyard "cynghreiriad", a phresenoldeb mewn digwyddiadau Balchder
- Codi ymwybyddiaeth sy'n benodol i Draws, gan gynnwys sesiynau hyfforddiant staff a myfyrwyr
- Hyfforddiant staff ar fynd i'r afael ag iaith amhriodol a "phryfocio" yn y dosbarth
- Defnyddio amrywiaeth o fyfyrwyr mewn deunyddiau hysbysebu i annog mwy o fenywod i ymgeisio am bynciau a ddominyddir gan ddynion, ac i ddynion ymgeisio am bynciau a ddominyddir gan fenywod.
- Ffocws parhaus ar wella hygyrchedd amgylchedd ffisegol y coleg.

Ymgorfforwyd yr holl argymhellion yn yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol terfynol.

Ym mis Mawrth 2023, fel rhan o'r Gynhadledd Cynrychiolwyr Myfyrwyr Flynyddol, rhannodd Cymorth i Fyfyrwyr ddiweddariad ar Weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru wrth-hiliol erbyn 2030. Rhoddwyd cyfle hefyd i ddysgwyr gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar eu barn ar y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth mewn perthynas â bywyd coleg. Cymerodd myfyrwyr ran mewn trafodaethau wedi'u hwyluso ar;

- Barch – gwerthoedd ac ymddygiad cadarnhaol o ran parchu amrywiaeth a chynhwysiad.
- Newid – newid yr hyn y gallwn ei wneud i barchu gwahaniaethau.
- Adrodd - archwilio ffyrdd o adrodd a chofnodi achosion o gam-drin, gwahaniaethu a/neu fwlio hiliol.
- Codi ymwybyddiaeth – hyfforddi myfyrwyr yn erbyn hiliaeth.

Er y bu ffocws yr ymgynghoriad ar wrth-hiliaeth, casglwyd yr adborth ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad mewn ystyr ehangach ac fe'i hystyriwyd wrth ddatblygu ein hamcanion.

Yn benodol, argymhellodd myfyrwyr y camau allweddol a ganlyn;

• Sefydlu Llysgenhadon a Chynghreiriaid Amrywiaeth.
• Digwyddiadau a dathliadau diwylliannol.
• Gwell llwyfannau gwybodaeth, gan ddefnyddio ffeithluniau, posteri, baneri.
• Adrodd, Cofnodi, Ymateb - datblygu system newydd ar gyfer adrodd am gwahaniaethu, bwlio ac
aflonyddu.
• Mynediad i fannau a chymdeithasau diogel a chynhwysol
• Hyfforddiant cynhwysiad i staff a myfyrwyr gan ddefnyddio gweithdai, arbenigwyr, grwpiau ffocws.
• Cwricwlwm wedi'i ddiwygio i gynnwys hanes diwylliant a hiliaeth mewn gweithgareddau tiwtorial a chynefino

Wrth baratoi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ymgynghorwyd â'r Grŵp Strategaeth CAC, Bwrdd y Llywodraethwyr, yr Uwch Dîm Rheoli, yr Undebau (UCU, Unison a NEU), a'n staff a myfyrwyr. Gwahoddwyd budd-ddeiliaid a phartïon â diddordeb i roi sylwadau ar yr holl agweddau ar yr amcanion cydraddoldeb, a gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn:

- Gan feddwl am bob blaenoriaeth, pa mor dda ydych chi'n teimlo y mae'r Coleg wedi'i wneud o ran cyflawni'r flaenoriaeth hon yn ystod y 4 blynedd diwethaf? (Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio pob amcan fel cyflawnwyd, gwneud cynnydd, methu dweud neu angen gwella)
- A ddylai hyn barhau i fod yn flaenoriaeth am y pedair blynedd nesaf?
- Dywedwch fwy wrthym pam yr ydych wedi dewis eich ymateb?

- Pa flaenoriaethau eraill ydych chi'n meddwl fyddai'n bwysig i ni eu hychwanegu at ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol?

Ceisiwyd adborth yn weithredol gan grwpiau amrywiol, i sicrhau y cafodd y rhai o'r holl nodweddion gwarchodedig gyfle i rannu eu barn. Roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol, gydag o leiaf 71% o’r ymatebwyr yn nodi bod pob un o’r amcanion yn parhau’n berthnasol ac yn bwysig i’r Coleg yn y dyfodol.

Rhestrodd ymatebwyr nifer o flaenoriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws ystod o nodweddion gwarchodedig y teimlasant y dylai'r coleg ganolbwyntio arnynt hefyd; y blaenoriaethau mwyaf cyffredin a rannwyd oedd:

- Sicrhau tegwch triniaeth a chyfle
- Taclo achosion o fwlio, aflonyddu a diffyg parch
- Cydraddoldeb hil a thaclo hiliaeth
- Cefnogaeth i staff a myfyrwyr anabl
- Addysg a hyfforddiant CAC parhaus ar gyfer staff a myfyrwyr

Mae'r rhain oll yn flaenoriaethau allweddol hyn y CCS, ac rydym yn falch bod y CCS yn adlewyrchu blaenoriaethau a phryderon ein myfyrwyr.

## Ein Cynnydd

### Llais Myfyrwyr








Ym mis Rhagfyr 2022 penododd y Coleg Uwch Swyddog Cyfranogiad, Lles a Chynhwysiad Myfyrwyr (USCLlC). Cyfunodd y rôl hon ymgysylltiad, lles a chynhwysiad myfyrwyr mewn un rôl gyfannol, gan ganiatáu i les a chydraddoldeb ac amrywiaeth gael eu hymwreiddio’n llawn mewn gweithgareddau ymgysylltu â myfyrwyr ar draws y Coleg.

Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'u hymwreiddio yn yr hyfforddiant cynrychiolydd myfyrwyr mandadol a hyfforddiant Pwyllgor Gweithredol Undeb y Myfyrwyr, lle dysgir arweinwyr myfyrwyr am bwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynrychioli lleisiau myfyrwyr, a gofynnir iddynt ystyried y safbwyntiau gwerthfawr y gall pobl o gefndiroedd gwahanol ddod â nhw at ymgynghoriadau a gwneud penderfyniadau. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys cyfnod sefydlu ffurfiol, sy'n cynnwys sesiwn gyda'r Uned Hawliau Plant a'r USCLIC i roi trosolwg i swyddogion o'r wybodaeth a'r sgiliau allweddol sydd eu hangen yn eu rolau yn ogystal â chynnwys ynghylch tuedd anymwybodol a mabwysiadu ymagwedd gynhwysol.

### Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb y Myfyrwyr yn cydweithio â'r Coleg i nodi nifer o ddyddiadau calendr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad trwy gydol y flwyddyn trwy ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd. Mae gan y Coleg galendr digwyddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth blynyddol, gan redeg un ymgyrch codi ymwybyddiaeth bob mis ar gyfer staff a myfyrwyr. Mae’r calendr yn cael ei ddiweddaru bob blwyddyn, ond mae digwyddiadau wedi cynnwys:

- Mis Hanes LHDT
- Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
- Mis Balchder
- Mis Hanes Pobl Dduon
- Diwrnod Cofio'r Holocost
- Diwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifainc
- Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb

Yn 2020, gan ddilyn adolygiad o Gyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr cyflwynwyd rôl newydd y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i'r Pwyllgor Gweithredol, y mai ei nod yw sicrhau yr ystyrir materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau Undeb y Myfyrwyr, a gweithio gyda'r Swyddog Digwyddiadau i redeg digwyddiadau ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth trwy gydol y flwyddyn academaidd. Wrth gydnabod pwysigrwydd y rôl, daeth yn swydd gyflogedig am y tro cyntaf (ynghyd â Llywydd Undeb y Myfyrwyr a Swyddog AU) yn 2023. Mae'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn rhan o Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad y Coleg hefyd. Mae’r Cyfansoddiad yn cynnwys datganiad dim goddefgarwch yn erbyn bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu ar sail unrhyw nodwedd warchodedig.

### Y Rhaglen Diwtorialau E-STEP

Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad wedi'u hymwreiddio o fewn Rhaglen Diwtorialau E-STEP y Coleg, rhaglen wythnosol o sesiynau tiwtorial ar bynciau bugeiliol a galwedigaethol gan gynnwys iechyd a lles, cyflogadwyedd a sgiliau digidol. Mae'r holl fyfyrwyr yn ymgymryd â'r rhaglen hon yn wythnosol fel rhan o'u hamserlen yn y coleg. Fel rhan o’r rhaglen hon mae sesiynau cydraddoldeb ac amrywiaeth pwrpasol yn cael eu cynnal yn ystod y tymor, mae sesiynau pwrpasol wedi’u cynnal i gyd-fynd â digwyddiadau allweddol fel Mis Hanes Pobl Dduon ym mis Hydref, sesiynau LHDTC+ ym mis Chwefror i gyd-fynd â Mis Hanes LHDTC+ ac mae adnoddau Gwrth-Hiliaeth wedi wedi’u creu a’u rhannu â’n myfyrwyr gan arwain at gynyddu ymwybyddiaeth bellach ymhlith ein myfyrwyr a’n staff ar Gynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cymru NPTC. Mae cymorth ar gael i staff addysgu wrth addysgu'r meysydd hyn ac mae llawer ohonynt wedi cael hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, gan gynyddu hyder i fynd i'r afael â'r pynciau sensitif hyn.  Mae calendr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad y Coleg wedi'i ymgorffori yn y rhaglen, felly mae

myfyrwyr yn cael gwybod am ymgyrchoedd perthnasol ar bwyntiau allweddol yn ystod y flwyddyn. Ar ôl y rhaglen diwtorialau, gall tiwtoriaid ofyn am sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi'u teilwra ar gyfer dosbarthiadau penodol i ehangu ar y dysgu a dderbyniwyd o'r rhaglen diwtorialau. Mae meysydd o'r rhaglen sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'u hadolygu'n flynyddol i sicrhau bod y derminoleg a ddefnyddir yn gyfredol ac yn gynhwysol ac i sicrhau bod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i'n staff a'n myfyrwyr.

**Calendr Amrywiaeth**

Mae'r Coleg wedi datblygu calendr blynyddol o ddigwyddiadau sy'n dathlu Iechyd a Lles a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad. Cytunir ar ddetholiad o ddigwyddiadau allweddol bob blwyddyn i goffau a dathlu amrywiaeth eang o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn academaidd ar gyfer staff a myfyrwyr.

Mae'r calendr yn arf defnyddiol mewn nifer o grwpiau Coleg gan gynnwys y Grwpiau Cyfranogiad Staff a Myfyrwyr, y Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad a'r Grŵp Strategaeth Cyflogwr o Ddewis i ni gynllunio'n unol â hynny.  Yn y cyfarfodydd grŵp hyn, rydym yn trafod syniadau ar gyfer adnoddau i'w rhannu gyda staff a myfyrwyr yn ogystal â gweithgareddau cynnwys i nodi'r dyddiadau arwyddocaol.

Mae pob dyddiad CAC y mae'r Grŵp yn ei gymeradwyo yn cael ei gategoreiddio yn ôl nodwedd warchodedig.  Cytunir hefyd y dylai pob ymgyrch anelu at gynnwys:

- Cyfathrebiadau mewnol i'r holl staff a sylw ar y cyfryngau cymdeithasol
- Digwyddiadau rhithwir neu wyneb yn wyneb
- Arddangosfeydd llyfrgell ac ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol.
- Rhestrau darllen llyfrgell ar bynciau cysylltiedig.
- Sylw yn y rhaglen diwtorialau ESTEP

**Iechyd a Lles Meddyliol**

Ers llofnodi'r Addewid Amser i Newid yn 2017 mae'r Coleg wedi parhau i ddatblygu ei strategaeth ar gyfer iechyd meddwl ac ehangu ar ystod o fecanweithiau cymorth i gefnogi staff, gan gynnwys y tîm o staff hyfforddedig sy'n swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl (CCIM). Ar hyn o bryd mae gan y Coleg 129 CCIM hyfforddedig sy'n cyfateb i ychydig dros 16% o'n gweithlu. Bu ffocws enfawr ar chwalu'r stigma sy'n ymwneud ag iechyd meddwl dynion yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac o ganlyniad, mae cyfran y dynion sy'n cyrchu'r hyfforddiant ac yn dod yn CCIM wedi cynyddu 15%. Mae'r staff hyn yn gwneud amrywiaeth o wahanol swyddi, cynorthwyol ac academaidd ill dau, yn enwedig ym meysydd Adeiladu a Pheirianneg.

time to change
let's end mental health discrimination

Mae Cydlynydd Iechyd a Lles y Coleg yn gweithio'n agos gyda thîm o CCIM i sicrhau bod ganddynt fynediad at ystod o adnoddau ar gyfer cyfeirio, yn ogystal â threfnu digwyddiadau i annog staff i siarad am iechyd meddwl a cheisio cymorth pan fydd angen. Mae digwyddiadau fel sesiynau 'te a sgwrs' yn cael eu trefnu a'u cefnogi gan nifer o CCIM drwy gydol y calendr academaidd ac maent yn gyfle i'r holl staff drafod iechyd meddwl mewn lleoliad anffurfiol.

Rwy'n Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl
I am a Mental Health First Aider

Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar iechyd a lles ar wella ac ehangu'r adnoddau lles sydd ar gael i'n staff a'n rheolwyr llinell. Gyda chreu'r hwb iechyd a lles ar SharePoint, mae hyn wedi gwneud adnoddau'n hygyrch i staff i archwilio ffyrdd rhagweithiol o gefnogi eu lles.  Ar y cyd â chyflwyno'r Gynhadledd Iechyd Meddwl a diwrnodau

Lles, mae hyn hefyd wedi ein galluogi i wella'r cymorth iechyd a lles a ddarparwyd i staff yn gyson dros y pedair blynedd diwethaf.

Ym mis Mehefin 2022 cynhaliodd y Coleg ei Gynhadledd Iechyd Meddwl gyntaf yn Theatr Brycheiniog Aberhonddu. Roedd y gynhadledd hon yn gyfle i siarad â phob un o'r CCIM ar y cyd, er mwyn cael trafodaethau agored a gonest am gefnogi staff gyda'u hiechyd meddwl a rhoi cyfle iddynt glywed gan siaradwr gwadd am eu brwydrau iechyd meddwl. Yn 2022 y siaradwr gwadd oedd Nigel Owens, y Dyfarnwr Rygbi Rhyngwladol, a siaradodd â’r tîm am ei frwydrau personol ei hun a sut “Mae siarad yn agored am iechyd meddwl yn dal yn rhywbeth newydd. Po fwyaf o sgyrsiau a gawn, y mwyaf y byddwn yn ei rannu, a gorau oll ydym ni.”

Dychwelodd y Gynhadledd Iechyd Meddwl flynyddol ym mis Mehefin 2023, a chefnogwyd y digwyddiad hwn gan y siaradwr gwadd Simon Weston CBE. Siaradodd Simon â’r tîm am wytnwch personol, roedd ei sgwrs ysbrydoledig a’i sesiwn holi ac ateb yn ymdrin â’i brofiadau fel cyn-filwr Rhyfel y Falklands, brwydrau gydag afiechyd meddwl a chaethiwed, a sut gall y staff a’r bobl ifanc rydyn ni’n gweithio gyda nhw i gyd ddod o hyd i wydnwch ynddyn nhw eu hunain. Bu adborth o'r ddwy gynhadledd gan bawb a fynychodd yn hynod gadarnhaol gyda llawer yn dweud y bu'r digwyddiad yn amhrisiadwy. Mae’r cynadleddau bob amser yn cael eu ffrydio’n fyw ar lwyfannau mewnol y Coleg fel bod yr holl staff a myfyrwyr yn cael y cyfle i ymgysylltu a chymryd rhywbeth i ffwrdd o'r digwyddiad o ran eu hiechyd meddwl eu hunain.

### Cefnogi Anableddau ac ADY

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddiwallu anghenion addysgol ein holl fyfyrwyr er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn botensial a ***bod y cyfan y gallant fod***. Drwy roi’r cymorth cywir ar waith ar yr adeg gywir, gellir dileu rhwystrau sylweddol i gyflawni potensial unigol, tra’n sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ALNET) 2018 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Yn ystod 2020-2024 mae'r Coleg wedi canolbwyntio ar drawsnewid ADY a pharatoi ar gyfer gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ALNET) 2018 ac mae wedi bod yn cymryd camau i ddod yn goleg cynhwysol. Nod y Coleg yw bod yn goleg sy'n gynhwysol i bob myfyriwr ag ADY, mae am fod yn goleg sy'n hygyrch i bob myfyriwr waeth beth fo'i allu. Fel rhan o'r cam trawsnewid hwn mae'r coleg wedi ailfodelu'r Tîm Cymorth i Fyfyrwyr sy'n gallu cyflawni gofynion y Ddeddf ALNET, mae hyn yn cynnwys Tîm ADY arbenigol a Rôl deddfwriaethol Cydlynydd ADY. Mae rhaglen hyfforddi lawn i wella sgiliau pob aelod o staff ynghylch ymwybyddiaeth o ADY wedi'i chyflwyno; a fydd yn sicrhau ymhellach fod neges Trawsnewid ADY strategol y coleg “Mae ADY yn Fater i Bawb” yn cael ei mabwysiadu gan bawb. Mae’r coleg wedi cyflawni llawer o’i amcanion tuag at ddod yn goleg cynhwysol, gan gynnwys dod yn Goleg Ymwybodol o Awtistiaeth a ddyfarnwyd gan AwtistiaethCymru.org ar 8 Gorffennaf 2022.

### Rhwydwaith Niwroamrywiaeth Staff

Term a fathwyd yn wreiddiol gan y cymdeithasegydd o Awstralia, Judy Singer, ar ddiwedd y 1990au yw Niwroamrywiaeth. Mae'n sbectrwm eang sy'n cwmpasu ystod o gyflyrau niwrolegol cudd gan gynnwys Awtistiaeth/Asperger, Dyslecsia, Dyspracsia, anableddau dysgu. Yn 2023, sefydlwyd grŵp cymorth Niwroamrywiaeth staff sy’n cynyddu’n gyson o ran ei aelodaeth. Mae’r grŵp yn rhoi lle i staff rannu a siarad yn agored ac yn gadarnhaol am eu profiadau, a chefnogi ei gilydd. Mae rhai o'r rhai a gymerodd ran yn y fenter hon bellach wedi

mynd ymlaen i gefnogi eraill y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad ac mae eu gwaith yn cael ei gydnabod trwy wobrau.

### Cynllun Hyderus o ran Anabledd

Mae'r cynllun Hyderus o ran Anabledd yn cefnogi cyflogwyr i fanteisio i'r eithaf ar y talentau y gall pobl anabl ddod â nhw at y gweithle. Ym mis Ebrill 2018 aeth y Coleg yn gyflogwr 'Ymrwymiad Hyderus o ran Anabledd' gan symud ymlaen i fod yn 'Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd' ym mis Ebrill 2019. Fel cyflogwr hyderus o ran anabledd, mae'r Coleg yn parhau i ddangos ei fod yn mynd yr ail filltir i sicrhau bod pobl anabl yn cael cyfle teg.

### Eiriolwr Ysgolion a Cholegau Stonewall Cymru

Mae'r Coleg wedi bod yn Hyrwyddwr Ysgol a Choleg Stonewall Cymru ers 2020. Mae'r rhaglen i ysgolion a cholegau yng Nghymru, a ddylunnir i ddatblygu cynhwysiad LHDTC+ ar draws ein gwasanaethau trwy fesur, olrhain a dathlu ein cynnydd. Yn ein cynhadledd Dathlu Cynrychiolwyr Myfyrwyr Flynyddol ym mis Mawrth 2023, fe wnaethom wahodd Stonewall Cymru i gyflwyno sesiwn ar Hunaniaethau LHDTC+. Roedd y pwnc hwn wedi'i nodi'n flaenoriaeth i'n myfyrwyr gan eu bod yn awyddus i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Gan ddilyn y digwyddiad gofynnodd y cynrychiolwyr myfyrwyr i staff fynychu hefyd. Nod y rhaglen hon yw eu helpu deall dysgwyr LHDTC+ yn well ac mae hyn yn cael ei gyflwyno i staff ar hyn o bryd. Mae'r gweithdai wedi'u dylunio i gyd-fynd â'n Calendr Amrywiaeth sy'n nodi Mis Balchder a Mis Hanes LHDTC+.

### Arweiniad Traws

Yn 2020 lluniodd y Coleg ddogfen ganllaw fanwl i staff ar sut i gefnogi myfyrwyr traws. Mae'r arweiniad yn amlinellu egwyddorion  arweiniol sy'n cynnwys gwybodaeth ar feysydd allweddol megis cadw cofnodion, cyfrinachedd, terminoleg, ac yn cynnwys templed Cynllun Personol i staff ei gwblhau gyda myfyrwyr y mae angen cefnogaeth arnynt. Ysgrifennwyd yr arweiniad gan ddefnyddio canllawiau Stonewall ac arfer gorau o'r sector. Cyhoeddwyd yr arweiniad hwn ar y cyd gyda hyfforddiant ymwybyddiaeth LHDT+, pan ddysgwyd staff am gysyniadau allweddol mewn cydraddoldeb ac iaith LHDT+.

### Toiledau Niwtral o Ran Rhywedd

Ym mis Chwefror 2020 cyflwynodd y Coleg toiledau niwtral o ran rhywedd a hygyrch ym mhob adeilad ar bob safle. Mae'r toiledau hyn yn agored i bobl o bob rhywedd eu defnyddio, ac maent yn hygyrch mewn cadair olwyn.

### Urddas Mislif

Mae Grant Urddas Mislif Llywodraeth Cymru wedi helpu'r Coleg i gyflawni canlyniadau allweddol yn unol ag amcanion y gronfa. Mae canlyniadau dysgwyr wedi cynnwys:

- Manteisio ar fynediad cyson a hawdd i gynhyrchion mislif.

- Mae'n llai tebygol y bydd y mislif yn tarfu ar ddysgwyr ar incwm isel a bydd ganddynt brofiadau gwell o'r mislif.
- Arbedion ariannol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr yr effeithir arnynt gan galedi.
- Llai o bryder ac embaras am y mislif.

Defnyddiwyd y grant i ddarparu cynhyrchion mislif a pheiriannau dosbarthu am ddim ar draws holl safleoedd y Coleg. Yn ogystal â hyn, mae cyllid wedi'i ddyrannu i gynhyrchion hylendid, dillad isaf a throwsus loncian. Trwy gyfnod clo'r pandemig COVID, roedd dysgwyr yn gallu cyrchu nwyddau a ddanfonwyd i'w cartrefi neu drwy dalebau i'w gwario mewn archfarchnadoedd lleol.

**Adduned Menopos y Gweithle**


Yn 2022 llofnododd y Coleg Adduned Menopos y Gweithle gan ddangos ei ymrwymiad i gydnabod y gall menopos fod yn broblem yn y gweithle a bod angen cymorth ar fenywod. Cyn llofnodi'r addewid, yn 2020 creodd y Coleg fforwm ar gyfer staff sy'n profi pob cam o'r menopos. Mae'r fforwm wedi galluogi pobl i siarad yn agored, yn gadarnhaol ac yn llawn parch am y menopos ac mae wedi ein galluogi i gefnogi cyfeirio a hysbysu staff yn weithredol, gyda nifer o siaradwyr gwadd yn siarad am ddiet, hormonau, a gwybodaeth cymorth meddygol cyffredinol. Ers ei sefydlu mae'r grŵp wedi tyfu'n gyson ac erbyn hyn mae ganddo dros 50 o aelodau.

**Ymgyrch Rhuban Gwyn**

Mae'r Rhuban Gwyn yn ymgyrch fyd-eang sy'n annog pobl, yn enwedig dynion a bechgyn, i weithredu'n unigol ac ar y cyd a newid yr ymddygiad a'r diwylliant sy'n arwain at gam-drin a thrais.

Ym mis Mehefin 2022 cafodd y Coleg achrediad Rhuban Gwyn ac ymrwymodd i roi terfyn ar drais dynion yn erbyn menywod. Er mwyn cael ei achredu roedd yn rhaid i'r Coleg ddatblygu a chyflwyno cynllun gweithredu cynhwysfawr a oedd â'r nod o newid y diwylliannau sy'n arwain at gam-drin a thrais a hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol. Gwisgo rhuban gwyn yw addo peidio byth â chyflawni, esgusodi neu aros yn dawel am drais gan ddynion yn erbyn menywod. Mae nifer o staff y Coleg wedi dilyn hyfforddiant Hyrwyddwr Rhuban Gwyn ac wedi arwain y rhaglen, gan ddatblygu adnoddau a digwyddiadau i gyfleu'r neges gref hon i aelodau staff a myfyrwyr ill dau.

Am y ddwy flynedd diwethaf mae'r Coleg wedi nodi diwrnod y Rhuban Gwyn a gofynnwn i staff a myfyrwyr addo eu cefnogaeth drwy arwyddo rhubanau gwyn anferth a oedd ar gael ym mhob prif dderbynfa. Roedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a sefydliadau arbenigol eraill hefyd yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan staff a myfyrwyr.




I gyd-fynd ag Ymgyrch y Rhuban Gwyn mae'r Coleg hefyd wedi rhoi adran 'man diogel' ar ei wefan ar gyfer yr holl ddefnyddwyr. Mae Mannau Diogel Ar-lein yn borth cynnil sy'n agor mewn ffenestr wib. Mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth, cyngor a rhifau cyswllt defnyddiol i'r rhai sydd mewn perygl o gam-drin domestig. Nid yw'n gadael unrhyw olion hanes rhyngrwyd, ac mae'n darparu opsiynau ymadael cyflym i'r sawl sy'n ceisio gwybodaeth. Mae Mannau Diogel Ar-lein yn darparu llu o ddolenni a gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys; pryd i ddeialu 999, llinellau cymorth cenedlaethol, grwpiau cymorth lleol a chysylltiadau defnyddiol pellach. Mae hefyd yn cynnwys holiadur i bennu risg cam-drin domestig y cyfranogwr.

**Adduned Mamolaeth**

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, creodd y Coleg y pecyn cymorth 'Beichiogrwydd a Chi' ar SharePoint. Crëwyd y pecyn cymorth hwn i roi arweiniad a chymorth i weithwyr sy'n disgwyl ar hyd eu taith feichiogrwydd. Rydym hefyd wedi cyflwyno cyfarfod dychwelyd i'r gwaith ar gyfer gweithwyr sy'n dychwelyd o gyfnod o absenoldeb mamolaeth i'w cefnogi yn ôl i'r gweithle gyda gwiriad pellach rhwng wythnosau pedwar a chwech.

Mae'r Coleg hefyd wedi ymrwymo'n ddiweddar i'r Addewid Mamolaeth, sydd wedi'i fathu fel 'menter gymdeithasol i gadw mamau yn y gweithle a'u helpu i lywio eu profiad o fod yn fam.' Y profiad o fod yn fam ('matrescence') yw'r newidiadau corfforol, seicolegol ac emosiynol y mae unigolyn yn mynd drwyddynt ar ôl genedigaeth eu plentyn. Mae pum colofn i'r addewid:

- Cyflawni'r gofyniad cyfreithiol ar gyfer beichiogrwydd a chyfnod mamolaeth
- Creu cynllun cyfnod mamolaeth a dychwelyd i'r gwaith
- Cyfathrebu i'r holl weithwyr sut mae absenoldeb mamolaeth yn gweithio
- Helpu gweithwyr i gadw cysylltiad emosiynol â'r gweithle pan fyddant ar wyliau, er mwyn atal pryder rhag cronni ar ôl iddynt ddychwelyd
- Cefnogi gweithiwr i ddychwelyd i'r gweithle ar ôl absenoldeb mamolaeth

Trwy ymrwymo i'r addewid rydym yn derbyn pecynnau profiad o fod yn fam, mae'r pecyn yn cyfeirio at brofiadau geni cadarnhaol, disgwyliadau o'i gymharu â realiti a dolenni i bodlediadau. Pecynnau cymorth yw'r rhain i gefnogi darpar rieni ar eu taith feichiogrwydd a hefyd i gynnig cymorth ac arweiniad ar ôl i'r baban gael ei eni - 'angen grymuso rhieni i ofalu am eu hiechyd meddwl amenedigol eu hunain'.

Drwy ymrwymo i'r addewid rydym yn dangos 'ein bod yn weithle sy'n gwerthfawrogi mamau sy'n gweithio, rydym yn helpu mamau'n weithredol i ddychwelyd i'r gweithle ar ôl absenoldeb mamolaeth. Rydym yn codi ymwybyddiaeth o'r profiad o fod yn fam'

**Gweithio mewn Partneriaeth**

Mae gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn faes ffocws penodol i ni yn y coleg. Ers mis Rhagfyr 2022 rydym wedi ehangu ein rhwydweithiau sefydliadol allanol yn sylweddol sydd wedi arwain at fwy o gydweithio a rhannu arfer gorau yn enwedig gyda ffocws CAC. Mae hefyd wedi ehangu ein hymgysylltiad cymunedol lleol. Yn ddiweddar, aethom i ddigwyddiadau Windrush 365 Cymru, digwyddiadau rhwydweithio BME Port Talbot a chynhaliodd CGGCNPT eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yma yn NPTC.

Mae gennym gysylltiad rheolaidd â sefydliadau fel CGGCNPT, cymunedau CNPT Mwy Diogel, Cymdeithas Gymunedol BME CNPT, Awdurdodau Lleol Powys a Chastell-nedd Port Talbot, EYST (Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig) Race Equality First, Prifysgol Abertawe, Grŵp Arweinyddiaeth Pobl Dduon, CAENTR (Canolfan Entrepreneuriaeth Affricanaidd), Addysgwyr i Gymru, cymuned y Gyrcas ac rydym bellach yn rhan o gyfarfodydd cysylltwyr cymunedol PAVO ar gyfer ardal Powys.

Mae'r cyfarwyddwr AD a'r US-CAC yn aelodau o Rwydwaith Cydraddoldeb Colegau Cymru ac yn parhau i fynychu cyfarfodydd rhannu arfer gorau a chydweithio rheolaidd ar draws y sector AB. Mae'r grŵp hwn yn cwrdd o leiaf unwaith bob tymor.

Mae NPTC hefyd wedi sefydlu grŵp ymgysylltu cymunedol. Nodwyd nad oedd gan yr ardal leol unrhyw grwpiau mwyafrifol byd-eang lle gallai cymunedau a rennir ddod at ei gilydd mewn man diogel. Lansiwyd 'Chai and Chat' Castell-nedd ym mis Mai 2023 ar y cyd â CGGCNPT ac Awdurdod Lleol CBSCNPT ac fe'i cynhelir bob dydd Iau yn llyfrgell leol Castell-nedd.




Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn gan ddenu hyd at ddeuddeg cenedligrwydd gwahanol ar unrhyw un adeg ac mae nifer cyfartalog y cyfranogwyr tuag ugain yr wythnos. Rydym wedi cael cyfranogwyr sy'n hanu o Bangladesh, Ynysoedd y Philipinau, Iran, India, Nigeria, Pacistan, Gwlad Pwyl, De Affrica, Syria, Twrci, Wcrain a Chymru.

Mae llawer o sefydliadau ehangach bellach yn defnyddio'r llwyfan hon i rannu eu gwasanaethau ac i allu estyn allan i'r gymuned leol ehangach. Gwneir hyn gan ddefnyddio system archebu ac mae'r rhestr aros yn dystiolaeth o'i llwyddiant yn ardal Awdurdod Lleol Castell-nedd.

**Ystafelloedd myfyrio**

Mae gan y Coleg ystafelloedd myfyrio pwrpasol ar dri o'i brif safleoedd. Mae arwyddion clir i'r ystafelloedd ac fe'u hyrwyddir i staff newydd yn ystod y cyfnod cynefino. Mae'r ystafelloedd hyn yn fannau tawel i bobl o bob ffydd a dim ffydd, ac yn cynnwys testunau sanctaidd, matiau a gleiniau gweddïo, seddau cyfforddus, a goleuadau a cherddoriaeth amgylchynol. Dyluniwyd a dodrefnwyd yr ystafelloedd gan ddefnyddio adborth myfyrwyr a staff a phobl o ystod o grefyddau gwahanol. Mae'r ystafelloedd yn cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau defnydd priodol ac argaeledd. Ar y cyd â'r ystafelloedd hyn mae cyfleusterau golchi ar gael yn agos.



**Oedolion Ifainc sy'n Ofalwyr**

Yn dilyn gweithrediad llwyddiannus y Dyfarniad QSCS (Safon Ansawdd mewn Cymorth i Ofalwyr) yn 2020, mae'r Coleg yn paratoi ar gyfer ailachredu yn 2024. Trwy lenyddiaeth a phresenoldeb amlwg ar draws y Coleg mae'r arweinydd gofalwyr a neilltuwyd a'r swyddog lles arbenigol wedi llwyddo i godi proffil gofalwyr ifanc ac wedi cyfathrebu'r rhwystrau a wynebir tra mewn addysg i staff a myfyrwyr. Mae gofalwyr ifanc wedi elwa o arweiniad ariannol a lles, mynediad at wasanaethau cymorth allanol a chyfeirio cadarnhaol i AU neu fyd gwaith Gofalwyr Ifanc. Nododd y Coleg ofalwyr ifanc fel rhan o grŵp targed y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn ystod covid, lle roedd gofalwyr ifanc yn wynebu unigrwydd ac unigedd wrth ofalu am anwyliaid. Er mwyn lleddfu'r unigrwydd, gwnaeth y tîm lles gysylltiad wythnosol, gan gynnig darpariaeth ariannol a lles.

Ers peth amser, mae proses gofrestru'r Coleg wedi galluogi myfyrwyr i nodi eu bod yn ofalwr ifanc. Mae cydnabyddiaeth wedi caniatáu i fyfyrwyr fynychu diwrnod cofrestru dynodedig sy'n rhoi cyfle i drafod anghenion unigol a derbyn cymorth lles parhaus. Daeth dyfarniad QSCS â'r fantais ychwanegol o greu Siarter Gofalwyr; gan alluogi gofalwyr ifainc i gofnodi eu hanghenion penodol ar ffurflen Patrwm Gofal pwrpasol a chario cerdyn gofalwr. Roedd llenyddiaeth a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer gofalwyr ifanc a leolwyd mewn lleoliadau amlwg, yn ogystal â bod ar gael yn ddigidol, yn galluogi myfyrwyr i nodi eu bod yn ofalwr ifanc drwy gydol eu hamser yn y coleg. Penodwyd swyddog lles arbenigol a ddaeth yn 'llais' gofalwyr ifainc. Creodd y rôl bresenoldeb amlwg ar draws y Coleg, gan gymeradwyo ymyrraeth un-i-un, yn ogystal â chydlynu grwpiau a digwyddiadau lles. Daeth pwyslais ar Ddiwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc â grwpiau cymorth cymunedol lleol i'r Coleg gan ganiatáu i fyfyrwyr ymgysylltu'n weithredol â'r gwasanaethau lleol.

**Cyflogwyr i Ofalwyr**

Mae'r Coleg wedi bod yn aelod o Gyflogwyr i Ofalwyr, elusen a sefydlwyd i sicrhau bod gan gyflogwyr y gefnogaeth i gadw a grymuso gweithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu, ers mis Chwefror 2022. Ers 2022, rydym wedi gweithio gyda Chyflogwyr i Ofalwyr i nodi ac ymgysylltu â'n staff sydd â chyfrifoldebau gofalu, gan eu cyfeirio at gymorth ac arweiniad. Rydym hefyd wedi adolygu ein polisïau a'u gwneud yn 'addas ar gyfer gofalwyr' ac wedi hyfforddi a chefnogi ein rheolwyr llinell i roi arferion sy'n llesol i ofalwyr ar waith. Mae'r

Coleg hefyd wedi cyflwyno ei Gynllun Pasbort Gofalwyr a hefyd yn hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i staff yn genedlaethol ac yn lleol.

### Y Lluoedd Arfog

Mae'r Coleg yn rhagweithiol wrth hybu cydnabyddiaeth a chefnogaeth ychwanegol ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog a phlant teuluoedd sy'n gwasanaethu. Derbyniodd y Coleg gydnabyddiaeth am y cymorth y mae’n ei ddarparu drwy ennill Gwobr Efydd Cyfamod y Lluoedd Arfog fawreddog yn y lle cyntaf. Mae’r Coleg bellach wedi’i gydnabod ac yn ddeiliad balch Gwobr Arian Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Lluoedd Arfog. Mae gan y Coleg Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog sy’n cydweithio’n agos gyda’n tîm Cymorth i Fyfyrwyr, gan ddarparu cymorth i gyn-filwyr y lluoedd arfog a phlant teuluoedd sy’n gwasanaethu, sy’n cynnig cymorth lles ac ariannol ar draws y Coleg.

ARMED FORCES COVENANT
CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME
CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
SILVER AWARD
GWOBR ARIAN

## Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol

Bydd ein Hamcanion Cydraddoldeb yn ein helpu i fodloni'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol ac yn sicrhau ein bod yn parhau i wneud cynnydd wrth wella cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Coleg.

Mae'r Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2024-2028 fel a ganlyn:

- Sicrhau bod ein poblogaeth myfyrwyr yn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn. Yn sgil dadansoddiad o'n data ac ymchwil gyfredol rydym wedi adnabod yr angen am ganolbwyntio ar wahaniaethu'r rhywiau mewn pynciau penodol ac ar ein prentisiaethau.
- Trwy roi'r Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth ar waith, sefydlu diwylliant lle mae ein haddysg a'n profiad gwaith yn un sy'n ddiogel, yn llawn parch ac yn gynhwysol i bobl o bob cefndir ethnig a hiliol.
- Sefydlu diwylliant sy'n hybu amgylchedd dysgu a gweithio cadarnhaol a chefnogol o ran iechyd a lles meddyliol trwy weithredu'r Strategaeth Iechyd a Lles.
- Gwella hygyrchedd yr amgylchedd dysgu a gweithio ffisegol a digidol.
- Creu amgylchedd cynhwysol sy'n cefnogi dysgu a gweithio hyblyg.
- Gwella cynnydd a chyrhaeddiad ein poblogaeth fyfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig yn ogystal â'i chadw, fel a nodir gan ein data, er mwyn iddynt wireddu eu potensial llawn.
- Ymwreiddio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth trwy gydol y Coleg trwy ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd rheolaidd a thrwy godi ymwybyddiaeth.
- Gwella ansawdd a chyfradd ddatgelu data cydraddoldeb staff a myfyrwyr er mwyn i'n gweithredoedd barhau i gael eu cyfeirio'n dda.
- Sicrhau tegwch o ran tâl mewn perthynas â rhywedd ac ethnigrwydd.
- Meithrin diwylliant cefnogol, diogel a chynhwysol sydd â'r nod o ddileu bwlio, gwahaniaethu, aflonyddu a meicro-ymosodiadau neu unrhyw ymddygiad annerbyniol arall.

Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i gefnogi cyflawni'r amcanion, y gellir dod o hyd iddo yn Atodiad 1 ar ddiwedd yr adroddiad.

## Data Cydraddoldeb Cyflogaeth

Fel cyflogwr, mae'r Coleg yn cywain gwybodaeth mewn perthynas ag oedran, anabledd, priodas a phartneriaeth sifil, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. I ddechrau, mae gwybodaeth yn cael ei chywain yn ystod recriwtio, er hynny yn y cam dethol rydym yn sicrhau y cwblheir llunio'r rhestr fer heb gyfeirio at y nodweddion hyn. Mae'r Coleg wedi gweithredu system AD i alluogi staff i ddiweddaru a diwygio eu manylion personol eu hunain ar-lein. Mae adroddiadau a dadansoddi wedi'u cyfeirio gan y data hwn gyda'r disgwyliad y bydd yr wybodaeth y mae'n ei darparu'n arwain at ystadegau mwy cadarn a chyflawn.

## Caffael

Mae Grŵp Colegau NPTC yn cydymffurfio â holl ddeddfwriaeth gaffael berthnasol y DU, yn benodol yr egwyddor o beidio â gwahaniaethu, ac yn cymhwyso'r rheolau i bob un sy'n tendro mewn dull teg a thryloyw.

Mae'r Coleg yn hysbysebu contractau ar y wefan gaffael genedlaethol – www.gwerthwchigymru.llyw.cymru.
Hefyd, mae'r Coleg yn hysbysebu pob contract gwerth dros £30K ar Contracts Finder ac yn cyhoeddi dyfynbrisiau a thendrau yn unol â'i reoliadau Ariannol.

Caiff manylebau tendr eu drafftio gyda chymorth templed Asesiad Risg Cynaladwyedd. Trafodir y meini prawf gwerthuso gyda Thîm Prosiect, gan sicrhau bod cwestiynau dilys yr Offeryn Asesu Risg Cynaladwyedd yn cael eu cynnwys o fewn y gwerthusiad.Gall tendrau fod yn broses dau gam os ydynt dros drothwy yr DU: proses gyfyngedig sy'n cynnwys proses cyn-gymhwyso yn gyntaf ac wedyn bydd y Coleg yn dewis grŵp o gyflenwyr sydd â'r gallu i ddiwallu ei anghenion; ac yna y tendr, a ddefnyddir i ddewis cyflenwr o'r grŵp.

Mae'r meini prawf cyn-gymhwyso'n ymwneud â phethau sydd wedi digwydd yn y gorffennol (e.e. profiad, gallu technegol, iechyd a diogelwch, ansawdd ac amrywiaeth a chydraddoldeb) ac mae'r cam tendro'n ymwneud â'r hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol (e.e. prisio, methodolegau prosiect). Mae'r Coleg hefyd yn defnyddio'r Weithdrefn Agored, sy'n golygu bod unrhyw gyflenwr â diddordeb yn rhydd i gyflwyno tendr. Mae 'telerau ac amodau' ynghlwm wrth bob tendr sy'n cyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae gan y Coleg ddau ddull o fonitro contractau, Cytundeb Lefel Gwasanaeth - i gytuno ar ddatganiad o amcanion, neu Dangosyddion Perfformiad Allweddol - mae'r rhain yn cynrychioli'r isafswm lefel gwasanaeth a ddisgwylir.
Mae Grŵp Colegau NPTC wedi mabwysiadu egwyddorion y 'Siarter Agor Drysau' ar gyfer caffael sy'n hwylus i BBaCh. Bydd y Coleg yn cynnwys y defnydd o feini prawf datblygu cynaliadwy mewn tendrau addas wrth bennu gwerth am arian, gan gynnwys asesu effaith ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Anogir BBaCh i gofleidio datblygu cynaliadwy a bydd y Swyddog Caffael yn cynnig cyngor pan fo'n addas. Mae'r Coleg yn mynychu digwyddiadau 'Cwrdd â'r Prynwr', mae'r rhain wedi'u hanelu at BBaCh fel eu bod yn cael cyfle i gwrdd â Swyddogion Caffael y sector cyhoeddus a chael mynediad at dendrau yn y dyfodol.

Mae gan sefydliadau trydydd sector y cyfle i dendro am gontractau'r Coleg trwy gwerthwchigymru.

Mae Grŵp Colegau NPTC yn cydymffurfio â holl ddeddfwriaeth gaffael berthnasol yr UE a'r DU, yn benodol yr egwyddor o beidio â gwahaniaethu, ac yn cymhwyso'r rheolau i bob un sy'n tendro mewn dull teg a thryloyw.

Mae'r Coleg yn hysbysu contractau ar y wefan gaffael genedlaethol – www.gwerthwchigymru.llyw.cymru Hefyd, bydd cyflenwyr o Restr Gymeradwy y Coleg yn cael eu gwahodd i dendro am dendrau/dyfynbrisiau gwerth isel i uchel a gyhoeddir gan y Coleg.

## Ein Gweithdrefnau Monitro ac Adolygu

Eiriolir agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth Grŵp Colegau NPTC gan yr Is-brifathro Pobl a Digidol sy'n cadeirio Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad (Grŵp Strategaeth CAC) y Coleg. Mae'r Grŵp Strategaeth CAC yn cwrdd bob tymor ac yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Coleg gan gynnwys Undebau Llafur, Undeb y Myfyrwyr a Bwrdd y Llywodraethwyr. Mae'r grŵp yn goruchwylio cydymffurfiad â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac mae ganddo gyfrifoldeb trosgynnol dros weithredu ac adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Caiff yr Amcanion Cydraddoldeb eu monitro gan y Grŵp Strategaeth CAC bob tymor, ac adroddir cynnydd i'r Uwch Dîm Rheoli a Phwyllgor Adnoddau a Dibenion Cyffredinol Bwrdd y Gorfforaeth. At hynny, cynhyrchir adroddiad blynyddol ar wybodaeth a chynnydd monitro cyflogaeth.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ddogfen weithio a phan nad yw gweithredoedd yn cyflawni'r canlyniad a fwriedir, gellir gwneud penderfyniad i ddiwygio gweithredoedd a/neu'r amcan ar ôl adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael.

## Cyhoeddi a Hygyrchedd

Bydd Grŵp Colegau NPTC yn sicrhau bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb yn cael eu cyhoeddi a'u bod yn hygyrch i bawb.

Bydd y dogfennau ar gael ar wefan y Coleg ac ar fewnrwydi'r myfyriwr a'r staff yn Gymraeg a Saesneg. Bydd copïau caled ar gael ar gais ar bob campws a byddant ar gael mewn fformatau amgen fel y bo angen. Byddwch yn cylchredeg fersiwn electronig i sefydliadau partner ac ysgolion bwydo. Bydd fformatau amgen ar gael yn unol â'n datganiad hygyrchedd safonol;

**"Os ydych chi neu rywun rydych yn ei adnabod eisiau cael y ddogfen hon mewn fformat amgen, cysylltwch â'r Adran AD yn hr@nptcgroup.ac.uk neu ar 07825 365 367."**

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

**Amcan rh.1**
**Sicrhau bod ein poblogaeth myfyrwyr yn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn. Yn sgil dadansoddiad o'n data ac ymchwil gyfredol rydym wedi adnabod yr angen am ganolbwyntio ar wahaniaethu penodol rhwng y rhywiau mewn pynciau penodol ac yn ein prentisiaethau.**

Mae adroddiad 'A yw Cymru'n Decach 2023' yn adrodd bod gwahaniaethu rhwng y rhywiau'n gyffredin o hyd mewn meysydd pwnc penodol, gan gynnwys STEM, Safon Uwch, pynciau galwedigaethol a phrentisiaethau. I fynd i'r afael â hyn, bydd y Coleg yn ymgymryd ag adolygiad cyfredol o ddata ar draws y coleg, ac yn peilota mentrau a dargedir. Caiff y mentrau penodol eu cyfeirio gan ddarlun y data, gan ddefnyddio canllawiau ac arfer gorau'r sector, ac fe gânt eu monitro a'u gwerthuso i sicrhau y cyflawnir effaith.

| Adran/Maes | Deilliannau Gweithredol | Cyflawnwyd gan | Arweinydd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| Marchnata | Gan ddefnyddio'r data, adnabod meysydd a dangynrychiolir a gweithredu strategaethau gwella | • Adolygu deunyddiau ac ymgyrchoedd marchnata i sicrhau y defnyddir delweddau amrywiol trwy gydol yr ymgyrch<br>• Peilota mentrau a dargedir ac asesu trwy werthuso. | Is-brifathro: Academaidd a PMCh | |
| Ysgolion | Gan ddefnyddio'r data, adnabod meysydd a dangynrychiolir a gweithredu strategaethau gwella | • Dyfeisio mentrau mewn meysydd penodol i ymdrin ag anghydbwysedd<br>• Craffir cynnydd yn adroddiad adolygu blynyddol Penaethiaid Ysgol i'r GRhA. | Is-brifathro: Academaidd a Phennaeth Ysgol | |
| Partneriaeth Llwybrau/ASC | Gan ddefnyddio'r data, adnabod meysydd a dangynrychiolir a gweithredu strategaethau gwella | • Dyfeisio mentrau mewn meysydd penodol i ymdrin ag anghydbwysedd<br>• Craffir cynnydd yn adroddiad adolygu blynyddol ASC i'r GRhA. | PC: Sgiliau Arweinydd Cydraddoldeb Hyfforddiant Pathways / ASC | |

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

**Amcan rh.2**
**Trwy roi'r Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth ar waith, sefydlu diwylliant lle mae ein haddysg a'n profiad gwaith yn un sy'n ddiogel, yn llawn parch ac yn gynhwysol i bobl o bob cefndir ethnig a hiliol.**

Rydym yn addo sefyll yn erbyn hiliaeth o fewn ein Coleg ac yn y gymuned ehangach. Rydym yn gwahodd ein staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid i wneud yr un ymrwymiad i sicrhau bod y Coleg yn lle croesawgar i bawb. Ein gweledigaeth a'n cyfrifoldeb felly yw nid yn unig peidio â bod yn hiliol ond dod yn wrth-hiliol yn amlwg ac yn weithredol.

| Adran/Maes | Deilliannau Gweithredol | Cyflawnwyd gan | Arweinydd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| AD/Pob Maes | Rhoi'r Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth ar waith | Gweithredu'r amcanion gweithredol a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth. | AAD | |
| | | | | |
| | | | | |

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

**Amcan rh.3**
**Sefydlu diwylliant sy'n hybu amgylchedd dysgu a gweithio cadarnhaol a chefnogol o ran iechyd a lles meddyliol trwy weithredu'r Strategaeth Iechyd a Lles.**

Diffinnir coleg iach fel un sy'n mabwysiadu ymagwedd systemau cyfan at iechyd. Mae hyn yn golygu creu amgylchedd dysgu a gweithio a diwylliant sefydliadol a rennir sy'n cydnabod iechyd a lles fel rhan graidd o lwyddiant ac sy'n galluogi staff a myfyrwyr fel ei gilydd i gyrraedd eu potensial llawn.

| Adran/Maes | Deilliannau Gweithredol | Cyflawnwyd gan | Arweinydd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| AD / Pob maes | Gweithredu'r Strategaeth Iechyd a Lles | • Gweithredu'r amcanion gweithredol a amlinellir yn y strategaeth Iechyd a Lles. | RhAD | |
| Cymorth i Fyfyrwyr / Pob maes | Gweithredu'r Strategaeth Iechyd a Lles | • Gweithredu'r amcanion gweithredol a amlinellir yn y strategaeth Iechyd a Lles. | PC Myfyrwyr | |

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

Amcan rh.4
**Gwella hygyrchedd yr amgylchedd dysgu a gweithio ffisegol a digidol.**

O ganlyniad i'r pandemig COVID ffocyswyd yn gynyddol ar ddysgu a gweithio digidol ac o ganlyniad ffocysir ar sicrhau hygyrchedd digidol i bawb. Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn parhau i wella hygyrchedd ffisegol i'r amgylchedd gwaith a dysgu.

| Adran/Maes | Deilliannau Gweithredol | Cyflawnwyd gan | Arweinydd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| Ystadau | Gwella hygyrchedd ffisegol i safleoedd a chyfleusterau fel bod yr holl ardaloedd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb. ~~a'u bod yn ddiogel o ran COVID.~~ | • Archwiliad o'r holl safleoedd ac adrodd y camau gweithredu y mae angen eu cynhyrchu.<br>• Ymgynghori â staff a myfyrwyr i adnabod meysydd o bryder a phroblemau posib ac i gynorthwyo blaenoriaethu.<br>• Gweithredu camau yn sgil yr archwiliad o'r safle a'r ymgynghoriad.<br>• Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar adeiladau newydd a'r rhai sydd wedi'u hadnewyddu. | CC | |
| GDT | Sicrhau bod yr amgylchedd dysgu a gweithio digidol yn hygyrch i bawb. | • Gweithredu'r Strategaeth Ddigidol o ran cynhwysiad digidol, gan roi ystyriaeth i'r effaith ar staff a myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig.<br>• Mae staff a myfyrwyr yn ymwybodol o'r dechnoleg gynorthwyol ymdrochol sydd ar gael trwy'r llwyfan Windows 10 a'r Apiau Office 365 ac yn defnyddio nhw. | Is-brifathro: Pobl a Digidol a CD | |
| Cymorth i Fyfyrwyr | Sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael eu cynnwys yn ddigidol ac y gallant gael mynediad i wasanaethau addysgu a chefnogaeth yn y coleg a thrwy fynediad o bell. | • Defnyddio a hybu cronfa cynhwysiad digidol Llywodraeth Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer myfyrwyr AB sydd wedi'u hallgau'n ddigidol.<br>• Ymgynghori blynyddol â myfyrwyr trwy'r Cynrychiolwyr Myfyrwyr i adnabod | PC Myfyrwyr | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ymwybyddiaeth o gronfa cynhwysiad digidol LlC, ymwybyddiaeth o ffurfiau eraill ar wasanaethau cefnogi dysgu digidol, a chynhyrchu argymhellion i gefnogi myfyrwyr sydd wedi'u hallgau'n ddigidol yn well.<br>• Rhoi camau yn sgil yr ymgynghoriad ar waith. | | |

**Amcan rh.5**
**Creu amgylchedd cynhwysol sy'n cefnogi dysgu a gweithio hyblyg.**

Dywed ymchwil wrthym fod gweithio 'hyblyg' yn esblygu'n gyflym. Wrth ei wraidd mae unigolion sydd â'r posibilrwydd o well ryddid dros pryd, ble neu sut i gyflawni eu rolau penodol neu ymgymryd â'u hastudiaethau. Bydd hyn yn helpu ni i greu amgylchedd dysgu a gweithio hyblyg ar gyfer unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig, yn ogystal â rhoi ymyl cystadleuol i ni fel cyflogwr a darparwr dysgu.

| Adran/Maes | Deilliannau Gweithredol | Cyflawnwyd gan | Arweinydd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| AD | Parhau i wella arferion gweithio hyblyg ar bob lefel o fewn y sefydliad | • Codi ymwybyddiaeth o'r buddiannau gweithredol a ffyrdd o weithredu gweithio hyblyg ymysg rheolwyr llinell.<br>• Darparu a hybu ystod o bolisïau sy'n cefnogi ac yn hybu gweithio hyblyg.<br>• Parhau i ymgysylltu â'r cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd a rhoi camau a argymhellwyd ar waith er mwyn cyflawni statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd.<br>• Cynnwys 'perthyn' fel is-faes yr Arolwg Canfyddiadau Staff er mwyn ymchwilio i brofiadau staff o weithio hyblyg - dadansoddir data a chynhyrchir argymhellion.<br>• Gweithredu'r camau a argymhellwyd yn yr ymgynghoriad. | AAD | |
| Academaidd | Parhau i wella dysgu hyblyg i ddiwallu anghenion ein myfyrwyr. | • Parhau i adeiladu ar y dull dysgu cymysg presennol er mwyn i fyfyrwyr fedru cael mynediad i ddysgu'n hyblyg, e.e. gyda'r hwyr ac ar benwythnosau<br>• Defnyddio a hybu cronfa cynhwysiad digidol Llywodraeth Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u hallgau'n ddigidol.<br>• Ymgynghori blynyddol â myfyrwyr trwy'r Cynrychiolwyr Myfyrwyr i adnabod ymwybyddiaeth o gronfa cynhwysiad digidol LlC, ymwybyddiaeth o ffurfiau eraill ar | PC: Ansawdd<br><br>PC: Myfyrwyr<br><br>USCLlCM | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | wasanaethau cefnogi dysgu digidol, a chynhyrchu argymhellion i gefnogi dysgu hyblyg i fyfyrwyr.<br>• Rhoi camau yn sgil yr ymgynghoriad ar waith. | Pennaeth Ysgol | |
| Cymorth i Fyfyrwyr | Gwella mynediad myfyrwyr i wasanaethau cefnogi digidol | • Defnyddio ystod o dechnolegau i ddatblygu gwasanaethau cefnogi sy'n fwy hygyrch i fyfyrwyr, gan gynnwys gweithdai ar-lein, gweminarau, cyfres fideo a defnyddio cyfryngau cymdeithasol.<br>• Ymgynghoriad blynyddol â myfyrwyr trwy'r Cynrychiolwyr Myfyrwyr i gynhyrchu argymhellion a fydd yn gwella mynediad myfyrwyr i wasanaethau cefnogi.<br>• Rhoi camau yn sgil yr ymgynghoriad ar waith. | PC Myfyrwyr | |
| AD a Chymorth i Fyfyrwyr | Gwella sgiliau timau staff ac arweinwyr myfyrwyr er mwyn iddynt gael yr wybodaeth a phrofiad angenrheidiol i ofyn am safbwyntiau budd-ddeiliaid ac ymateb iddynt. | • Hyfforddiant ymgynghori mandadol ar gyfer grwpiau staff ac arweinwyr myfyrwyr detholedig i sicrhau eu bod wedi'u cyfarparu i gymryd rhan yn adeiladol mewn gweithgareddau cyfranogiad y coleg a'u hwyluso.<br>• Codi ymwybyddiaeth o weithgareddau cyfranogiad y coleg i'r holl staff a myfyrwyr, gan dargedu'r rhai o grwpiau agored i niwed ac a dangynrychiolir er mwyn iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogiad, fel bod eu barn yn cael ei chynrychioli. | PC: Myfyrwyr | |

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol  2020-2024

**Amcan rh.6**
**Gwella cynnydd, cadw a chyrhaeddiad ein poblogaeth fyfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig, fel a nodir gan ein data, er mwyn iddynt wireddu eu potensial llawn.**

Targed parhaus yw hwn ac yn flaenoriaeth barhaus i'r Coleg. Rydym hefyd yn ymwybodol o ddarlun cenedlaethol y sector hefyd, sy'n dangos bod gan fyfyrwyr o grwpiau penodol gyfraddau cynnydd, cadw a chyrhaeddiad is. Bydd ein gweithredoedd yn cael eu cyfeirio gan ein data, er mwyn i ni fedru rhoi'r cyfle gorau i'r holl fyfyrwyr gyrraedd eu potensial llawn.

| Adran/Maes | Deilliannau Gweithredol | Cyflawnwyd gan | Arweinydd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| PC: Ansawdd | Darparu data i asesu cynnydd, cadw a chyrhaeddiad yr holl fyfyrwyr, wedi'i ddadansoddi yn ôl rhywedd, ethnigrwydd ac anableddau. | • Pennu data gwaelodlin a meincnodi yn erbyn ffigurau cenedlaethol.<br>• Defnyddio data i gyfeirio camau dilynol i ymdrin ag unrhyw fylchau mewn cynnydd, cadw neu gyrhaeddiad. | Ansawdd | |
| Marchnata | Gan ddefnyddio'r data, adnabod meysydd a dangynrychiolir ac ystyried strategaethau gwella | • Adolygu amrywiaeth y delweddau mewn deunyddiau ac ymgyrchoedd marchnata<br>• Peilota mentrau a dargedir ac asesu trwy werthuso yn unol ag amcan 1.1. | PMaCh | |
| Cymorth i Fyfyrwyr | Cydweithio â myfyrwyr presennol ac arbenigwyr i ddatblygu ymyraethau a gwasanaethau ymgynghorol ar gyfer myfyrwyr sy'n hunan-adnabod fel: Lleiafrif ethnig, ymadawyr gofal neu brofiad o ofal, gofalwyr, anabl, benywaidd - lle mae menywod wedi'u tangynrychioli yn y ddisgyblaeth academaidd a gwrywaidd – lle mae dynion wedi'u tangynrychioli yn y ddisgyblaeth academaidd, LHDTC+, rhieni neu o gefndiroedd cyfranogiad sy'n ehangu | • Datblygir a gweithredir ymyraethau a phecynnau cefnogaeth wedi'u teilwra er mwyn i fyfyrwyr sy'n dod o'r grwpiau agored i niwed ac a dangynrychiolir a nodwyd, fedru llwyddo.<br>• Mae cyfraddau llwyddiant myfyrwyr o'r grwpiau agored i niwed ac a dangynrychiolir a nodwyd yn gyfateb i gyfraddau llwyddiant cyffredinol y Coleg, neu'n rhagori arnynt. | PC: Myfyrwyr | |

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol  2020-2024

**Amcan rh.7**
**Ymwreiddio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth trwy gydol y Coleg trwy ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd rheolaidd a thrwy godi ymwybyddiaeth.**

Mae cydraddoldeb yn ymwneud â sicrhau bod gan bob unigolyn gyfle cyfartal i fanteisio i'r eithaf ar eu bywydau a'u doniau. Trwy barhau i godi ymwybyddiaeth a hybu cydraddoldeb trwy ymgyrchoedd rheolaidd gallwn sicrhau bod Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn parhau'n rhan annatod o waith y Grŵp.

| Adran/Maes | Deilliannau Gweithredol | Cyflawnwyd gan | Arweinydd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| Grŵp Strategaeth CAC | Amserlennu rhaglen o weithgareddau codi ymwybyddiaeth blynyddol sy'n darparu cyfleoedd cymryd rhan ar draws pob lefel a phwnc. | • Darparu rhaglen ddigwyddiadau trwy gydol y flwyddyn  sy'n ymdrin ag ystod eang o feysydd C&A<br>• Rhannu arfer da a darparu astudiaethau achos<br>• Parhau i sicrhau bod themâu a chynnwys C&A wedi'u hymwreiddio trwy'r rhaglen diwtorialau ESTEP<br>• Monitro drwy'r Grŵp Strategaeth CAC | US:CAC / USCLlCM | |
| AD a Chymorth i Fyfyrwyr | Dyfeisio a gweithredu fframwaith effeithiol o weithgareddau cyfranogiad sydd wedi'i ddeall yn glir gan fyfyrwyr a staff ac sy'n cyflwyno'r gwelliannau mesuradwy yn ansawdd cyffredinol yr amgylchedd dysgu a gweithio. | • Targedu hyfforddiant ar gyfer yr holl staff a myfyrwyr o grwpiau agored i niwed ac a dangynrychiolir er mwyn iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogiad, fel bod eu barn yn cael ei chynrychioli (yn unol ag amcan 5.4) | RhAD / RhDS | |
| Bwrdd | Sicrhau bod gan y Bwrdd drosolwg strategol o CAC o fewn y Grŵp. | • Sicrhau bod y Grŵp Strategaeth CAC wedi'i gynrychioli ar y Bwrdd.<br>• Hyfforddiant C&A i'w ddarparu ar gyfer aelodau'r Bwrdd | PC: Llywodraethu | |
| Bwrdd ac UDRh | Mae arweinwyr a staff allweddol yn cynnal perthnasoedd proffesiynol â chymuned y Coleg, yn enwedig y rhai y rhai sy'n cynrychioli grwpiau ethnig, | • Mae Rheolwyr, Llywodraethwyr a'r US:CAC yn aelodau gweithredol o weithgorau cydlyniant cymunedol lleol a rhanbarthol. | Is-brifathro: Cysylltiadau | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ffydd, lleiafrifoedd ac agored i niwed gwahanol. | | Cyhoeddus ac US:CAC | |

**Amcan rh.8**
**Gwella ansawdd a chyfradd ddatgelu data cydraddoldeb staff a myfyrwyr er mwyn i'n gweithredoedd barhau i gael eu cyfeirio'n dda.**

Mae dadansoddiad o ddata staff wedi dangos gwelliant cyson mewn cyfraddau datgelu, ond mae'n parhau'n isel ar gyfer rhai nodweddion. Mae'r Coleg yn cydnabod bod angen i ni seilio ein gweithredoedd ar broffil ac anghenion go iawn ein staff a myfyrwyr er mwyn gwella cydraddoldeb yn wirioneddol.

| Adran/Maes | Deilliannau Gweithredol | Cyflawnwyd gan | Arweinydd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| AD | Gwella chyfraddau datgelu cydraddoldeb staff er mwyn darparu data cydraddoldeb staff cadarn a chynhwysfawr ar yr holl nodweddion gwarchodedig. | • Gwahoddir yr holl staff i ddiweddau cofnodion ar y panel rheoli AD bob blwyddyn yn y pwyntiau allweddol a ganlyn yn y flwyddyn: cynefino, arfarniadau, diwrnodau DPP.<br>• Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a buddion cywain a monitro data, gan roi hyder i staff wneud datgeliad.<br>• Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn.<br>• Defnyddio'r data o'r Adroddiad Blynyddol i gyfeirio camau yn y dyfodol a chefnogi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.<br>• Rheolwyr llinell i gwblhau adolygiad cydraddoldeb blynyddol a'i gyflwyno i'r GRhA i gael ei graffu. | RhAD | |
| Cymorth i Fyfyrwyr | Darparu data cydraddoldeb myfyrwyr cadarn a chynhwysfawr | • Sefydlu data gwaelodlin ac adolygu cyfraddau datgelu presennol<br>• Codi ymwybyddiaeth myfyrwyr o bwysigrwydd a'r defnydd o ddata cydraddoldeb | PC: Myfyrwyr | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Cynnydd bob blwyddyn yn nifer y myfyrwyr sy'n teimlo y gallant wneud datgeliad data cydraddoldeb<br>• Defnyddio data i gyfeirio camau dilynol. | | |

| **Amcan rh.9**<br>**Sicrhau tegwch o ran tâl mewn perthynas â rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd.**<br><br>Rydym yn bwriadu ystyried y gwahaniaethau mewn tâl mewn perthynas â rhywedd sy'n bodoli ar draws y sefydliad ac adnabod amcan a fydd yn ymdrin ag unrhyw wahaniaeth sy'n cael ei nodi. Fel rhan o ymrwymiad y Coleg i wrth-hiliaeth rydym yn bwriadu ystyried y gwahaniaethau mewn tâl mewn perthynas ag ethnigrwydd hefyd.<br>Fel rhan o ymrwymiad y Coleg i fod yn gyflogwr sy'n hyderus o ran anabledd rydym yn bwriadu ystyried y gwahaniaethau mewn tâl mewn perthynas ag anabledd hefyd. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adran/Maes** | **Deilliannau Gweithredol** | **Cyflawnwyd gan** | **Arweinydd** | **Dyddiad** |
| AD | Mesur y Bwlch Tâl Rhwng y Rhywiau, gan ddefnyddio'r data i adnabod meysydd o bryder a gweithredu strategaethau gwella. | • Dadansoddiad rheolaidd o'n data tâl mewn perthynas â rhyw a chynhyrchu argymhellion pan fydd angen.<br>• Gweithredu'r camau a nodwyd.<br>• Trwy arfarniadau rheolaidd, adnabod cyfleoedd i fenywod ar raddau tâl is gael dyrchafiad neu ddatblygiad.<br>• Hybu gweithio hyblyg a pholisïau sy'n llesol i'r teulu i gefnogi cadw a chynnydd cyflogeion benywaidd ar bob lefel yn y sefydliad - gweler amcan 5.<br>• Dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y broses Recriwtio a Dethol, deunyddiau a gwefan, a rhoi unrhyw weithredoedd sy'n deillio o hynny ar waith. | AAD | |
| AD | Mesur y Bwlch Tâl Rhwng Pobl o Ethnigrwydd Gwahanol, gan ddefnyddio'r data i adnabod meysydd o bryder a gweithredu strategaethau gwella. | • Dadansoddiad rheolaidd o'n data tâl mewn perthynas ag ethnigrwydd, a chynhyrchu argymhellion pan fydd angen.<br>• Gweithredu'r camau a nodwyd.<br>• Trwy arfarniadau rheolaidd, adnabod cyfleoedd i gyflogeion BAME ar raddau tâl is gael dyrchafiad neu ddatblygiad.<br>• Hybu gweithio hyblyg a pholisïau sy'n llesol i'r teulu i gefnogi cadw a chynnydd cyflogeion | AAD | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | BAME ar bob lefel yn y sefydliad - gweler amcanion 2 a 5.<br>• Dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y broses Recriwtio a Dethol, deunyddiau a rhoi unrhyw weithredoedd sy'n deillio o hynny ar waith (gweler amcan 2). | | |
| AD | Mesur y Bwlch Tâl Anabledd, gan ddefnyddio'r data i adnabod meysydd o bryder a gweithredu strategaethau gwella. | • Dadansoddiad rheolaidd o'n data tâl mewn perthynas ag anabledd, a chynhyrchu argymhellion pan fydd angen.<br>• Gweithredu'r camau a nodwyd.<br>• Trwy arfarniadau rheolaidd, adnabod cyfleoedd i gyflogeion ag anableddau ar raddau tâl is gael dyrchafiad neu ddatblygiad.<br>• Hybu gweithio hyblyg a pholisïau sy'n llesol i'r teulu i gefnogi cadw a chynnydd cyflogeion sydd ag anabledd ar bob lefel yn y sefydliad.<br><br>• Dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y broses Recriwtio a Dethol, deunyddiau a gwefan, a rhoi unrhyw weithredoedd sy'n deillio o hynny ar waith. | AAD | |

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

**Amcan rh.10**
**Meithrin diwylliant cefnogol, diogel a chynhwysol sydd â'r nod o ddileu bwlio, gwahaniaethu, aflonyddu a meicro-ymosodiadau neu unrhyw ymddygiadau annerbyniol eraill.**

Mae ymchwil gan Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn dangos bod bwlio, gwahaniaethu ac aflonyddu'n parhau'n gyffredin mewn rhai gweithleoedd ac o fewn addysg. Mae gennym bolisïau eisoes sy'n hybu urddas staff a myfyrwyr, ac fel Coleg rydym yn mabwysiadu ymagwedd o beidio â goddef bwlio ac aflonyddu o gwbl. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod angen i ni fynd ymhellach wrth godi ymwybyddiaeth o'r materion ymysg cymuned gyfan y coleg, a sut i'w hadrodd. Rydym yn anelu'n weithredol at ddathlu amrywiaeth ein cymuned ddysgu a hybu cynhwysiad, ac rydym yn ymwybodol o'r angen am ddileu unrhyw fwlio, gwahaniaethu ac aflonyddu.

| Adran/Maes | Deilliannau Gweithredol | Cyflawnwyd gan | Arweinydd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| AD | Cael gweithlu amrywiol a chynrychiadol sy'n groesawgar ac yn gefnogol o'n gilydd a'n myfyrwyr. | • Datblygu rhaglen hyfforddiant flynyddol ar gyfer staff ar bynciau gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ymdrin yn echblyg â gwahaniaethu, bwlio ac aflonyddu, a meicro-ymosodiadau.<br>• Datblygu rhaglen gynghreiriaid (gweler amcan 1.3) | AAD / RhAD/ RhDS | |
| AD a Chymorth i Fyfyrwyr | Ystyried a, lle bo'n briodol, newid aelodaeth grwpiau strategol, rheoli a gweithio'r coleg er mwyn iddynt adlewyrchu'r proffil staff a myfyrwyr yn well. | • Gan ddefnyddio data o'r Adroddiad Blynyddol, dyfeisio targedau ar gyfer cynrychioliad rhywedd, ethnigrwydd ac anableddau ar grwpiau gwneud penderfyniadau allweddol, gan gofio peidio â rhoi baich gormodol ar unrhyw grwpiau a dangynrychiolir i fod yn rhan o bwyllgorau lluosog. | AAD a PC: Myfyrwyr | |
| AD a Chymorth i Fyfyrwyr | Mae gweithdrefnau a gweithgareddau cynefino'n sicrhau bod yr holl staff a myfyrwyr yn deall pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a pharch at holl aelodau'r gymuned ddysgu | • Mae 100% o staff wedi cwblhau'r e-ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fel rhan o'r broses gynefino.<br>• Adolygu'r cyflwyniad cynefino AD i staff, i gynnwys gwybodaeth glir am ymrwymiad y Coleg i C&A, hawliau a chyfrifoldebau staff, a phwysigrwydd C&A mewn arferion gweithio. | AAD a PC: Myfyrwyr | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Gweler amcanion 10.4, 10.5 a 10.6 isod am fesurau deilliannau myfyrwyr. | | |
| AD a Chymorth i Fyfyrwyr | Mae Codau Ymddygiad Staff a Myfyrwyr yn bodoli ac yn amlinellu disgwyliadau clir o ran ymddygiad myfyrwyr a staff a'r prosesau i'w dilyn i ymdrin â thorri codau. | • Datblygu cod ymddygiad sy'n berthnasol i'r holl fyfyrwyr<br>• Mae 100% o fyfyrwyr amser llawn wedi darllen a deall y Côd Ymddygiad Myfyrwyr fel rhan o'r broses gynefino.<br>• Mae 100% o staff wedi darllen a deall y Côd Ymddygiad Staff fel rhan o'r broses gynefino. | PC: Myfyrwyr<br><br>AAD | |
| AD a Chymorth i Fyfyrwyr | Rhoi system adrodd ar waith ar gyfer staff a myfyrwyr y cyfeirir ati'n glir. | • Adolygu effeithiolrwydd ein systemau adrodd presennol, gan wneud newidiadau lle bo'n briodol.<br>• Ymgorffori cwestiynau ar fwlio ac aflonyddu mewn arolygon myfyrwyr a staff | PC: Myfyrwyr/ AAD | |
| AD a Chymorth i Fyfyrwyr | Mae'r Coleg yn dathlu amrywiaeth ei gymuned ddysgu'n weithredol ac yn hybu goddefgarwch | • Mae calendr o ddigwyddiadau myfyrwyr a staff yn bodoli sy'n hybu ac yn dathlu amrywiaeth<br>• Mae gan y rhaglen eSTEP ddeunyddiau a thasgau sy'n sicrhau bod gan fyfyrwyr ymwybyddiaeth briodol o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth | US: CAC/ USCLICM | |
| Cwricwlwm | Cwblhau modiwlau'r rhaglen diwtorialau eSTEP o gydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelu a prevent, gwerthoedd Prydeinig, cyfrifoldeb digidol, a chyfranogiad myfyrwyr. | • Cynnydd 5% o flwyddyn i flwyddyn mewn myfyrwyr AB amser llawn sydd wedi cwblhau modiwlau'r rhaglen diwtorialau eSTEP o gydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelu a prevent, gwerthoedd Prydeinig, cyfrifoldeb digidol, a chyfranogiad myfyrwyr dros fywyd y CCS. | PC: Cwricwlwm | |